

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 6 Mehefin 2019

Rhif Union: 01824 712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 12 MEHEFIN 2019** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

**SYLWCH: BYDD SESIWN HYFFORDDI TRWYDDEDU AR GYFER AELODAU YN SYTH AR ÔL Y CYFARFOD**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

#### **3 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

#### **4 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**5 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 14)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2019 (copi ynghlwm).

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**7 CAIS AM DRWYDDED AR GYFER CERBYD HURIO PREIFAT**  
(Tudalennau 15 - 36)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais am Drwydded Cerbydau Hurio Preifat.

**8 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 533519** (Tudalennau 37 - 62)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 533519.

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**9 DIWEDDARIAD AR Y DATGANIAD POLISI YNGHYLCH ADDASRWYDD YMGEISWYR A THRWDDEDAU YN Y MASNACHAU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 63 - 80)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi yn amgaaedig) yn cyflwyno Datganiad Drafft y Polisi sy'n ymwneud ag addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedau yn y masnachau cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat i'w cymeradwyo o 1 Gorffennaf 2019.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU** (Tudalennau 81 - 84)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w chymeradwyo.

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield  
Hugh Irving  
Alan James  
Brian Jones  
Barry Mellor  
Melvyn Mile

Arwel Roberts  
Peter Scott  
Rhys Thomas  
Tony Thomas  
Huw Williams

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cyngorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU  
GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM  
DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO  
PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

CAM	DISGRIFIAD
1.	Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol.
2.	Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4.
3.	Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad.
4.	Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras
5.	Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos  Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny.
6.	Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion.
7.	Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.)
8.	Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol
9.	Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
10.	Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.  DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion.

11.	Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd.
12.	Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd.
13.	Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd.
14.	Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded.
15.	Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn).
16.	Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:  1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. 2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.  Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded.
17.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl.
18.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2019 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Joan Butterfield, Alan James (Is Gadeirydd), Brian Jones, Richard Mainon, Barry Mellor, Arwel Roberts, Tony Thomas ac Huw Williams

**Arsylwyr** – Y Cyngorwyr Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Amgylchedd Adeiledig a Gwarchod y Cyhoedd(GR), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (JT) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## PWYNT SYLW

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Y Cyngorydd Hugh Irving, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Y Cyngorydd Alan James.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr Hugh Irving (Cadeirydd), Melvyn Mile a Rhys Thomas

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Nododd y Cyngorydd Tony Thomas gysylltiad personol yn eitem 5 ar y rhaglen gan fod yr ymgeisydd yn breswlydd yn ei dref ac ardal ei ward sirol.

### 3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni godwyd unrhyw faterion bryn.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar y 5 Rhagfyr 2018.

**Materion yn Codi** - Tud 9: Y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno rhestr o gerbydau penodedig sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Brian Jones, cadarnhaodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd fod rhestr o gerbydau penodedig sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn wedi ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD** fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2018 yn cael eu derbyn a'u cadarnhau fel cofnod gywir.

## **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 1 ac 13 o Ran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.

### **5 CAIS AM DRWYDDED AR GYFER CERBYD HURIO PREIFAT**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (wedi ei gylchredeg yn flaenorol) ar -

- (i) gais a dderbyniwyd am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat;
- (ii) swyddogion wedi methu caniatáu'r cais gan nad oedd y cerbyd a gyflwynwyd i'w drwyddedu yn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor mewn perthynas a'r terfyn oed o bum mlynedd i gerbydau oedd i'w trwyddedu dan gais newydd;
- (iii) amodau ychwanegol perthnasol i drwyddedu mathau o gerbydau arbenigol megis yr un dan sylw yn yr achos hwn ynghyd â ffotograffau o'r cerbyd oedd yn sail i'r cais, a
- (iv) yr Ymgeisydd â wahoddwyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn cefnogi'r cais ac ateb cwestiynau'r aelodau.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad ynghyd â gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r adroddiad gan ddenu sylw'r pwyllgor at bolisi'r Cyngor oedd yn nodi fod rhaid i gerbydau oedd yn sail i gais newydd fod yn iau na phum mlynedd oed. Gan fod y cerbyd dan sylw yn dair ar ddeg oed nid oedd yn cydymffurfio â'r gofynion presennol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cais yr Ymgeisydd i wyro oddi wrth bolisi'r Cyngor a chaniatáu'r cais.

Nododd yr Ymgeisydd ei fwriad i amnewid cerbyd arall i'w drwyddedu ond ar ôl ystyried y mater cadarnhaodd ei fwriad i fwrw ymlaen gyda'r cais gwreiddiol, oedd wedi ei nodi yn yr adroddiad i'r pwyllgor. Wrth gyflwyno ei achos nododd yr ymgeisydd ei fod wedi hen ennill ei blwyf ac yn adnabyddus fel gweithredwr ceir limwsîn ar gyfer hurio preifat arbenigol. Roedd yn darparu cerbydau ar gyfer achlysuron arbennig megis priodasau, bedyddiadau, ayyb. Er ei fod yn derbyn fod rheswm dros gyflwyno terfyn oedran ar gyfer trwyddedu cerbydau hacni cyffredinol a cherbydau hurio preifat teimlai fod y cyfyngiadau'n cael effaith anghyfartal ar ei fusnes a'i hyfywedd o ystyried y natur a'r math o waith a redai ynghyd â bod yn rwystr i uwchraddio trwyddedau cerbydau presennol fel oedd wedi digwydd yn yr achos hwn. Ymhelaethodd ar rinweddau'r cerbyd a gynigiwyd i'w drwyddedu a chyflwynodd dystiolaeth o waith cynnal a chadw a manylion gwasanaeth a thriniaeth ynghyd a sicrhau'r aelodau fod y cerbyd o safon uchel. Yn olaf

gofynnodd am gael gwared o'r terfyn amser ar gyfer cerbydau arbenigol, megis limwsînau estynedig, ym mholisi'r Cyngor.

Yn y man hwn, cafwyd gohiriad er mwyn ystyried y cais.

**PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais am drwydded Cerbyd Hurio Preifat gan osod yr amodau ychwanegol fel y nodir yn Atodlen 2 i'r adroddiad.

Roedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu fel a ganlyn -

Roedd yr aelodau wedi ystyried yr achos a gyflwynwyd yn ofalus ac wedi nodi fod yr ymgeisydd yn weithredwr cyfrifol oedd yn rhedeg y busnes ers amser hir, roedd ganddo gwmni cerbydau hurio preifat i bwrpas penodol ac o safon uchel. Wedi ystyried y natur a'r math o fusnes a redai'r ymgeisydd a'r gwasanaethau penodol a ddarperir, a gan dderbyn fod y cerbyd dan sylw mewn cyflwr arbennig o dda, cytunodd yr aelodau fod achos teilwng wedi ei gyflwyno i wyro oddi wrth eu polisi ar derfynau oedran cerbydau yn yr achos hwn a chaniatáu'r cais fel y gwnaed ef, gan osod amodau penodol yn berthnasol i'r math arbennig o gerbyd. Ynglŷn â'r cais i newid y polisi ar derfyn oedran i gerbydau arbenigol, teimlai'r aelodau fod eu polisi presennol yn gywir ac y dylai pob un cais gael ei ystyried yn unigol.

Felly cafodd penderfyniad y Pwyllgor ynghyd â'r rhesymau eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

## **SESIWN AGORED**

Ar ôl gorffen y gwaith uchod, cafodd y cyfarfod ei ail-gychwyn yn gyhoeddus.

### **6 POLISI EITHRIO CERBYD HURIO PREIFAT ARFAETHEDIG**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu (wedi ei rannu yn flaenorol) yn manylu am y Polisi Eithrio Platiau Hurio Preifat arfaethedig i'w ystyried a'i gymeradwyo i ymgynghoriad ffurfiol.

Adroddodd swyddogion am gyfreithlonrwydd materion yn ymwneud ag arddangos platiau hurio preifat ynghyd â disgresiwn y Cyngor i roi caniatâd arbennig rhag arddangos platiau trwyddedu. Byddai'r polisi arfaethedig yn cynnig arweiniad i ymgeiswyr posib ar yr isafbwynt safonau o ran y math o gerbydau y byddai'r cyngor yn ystyried ar gyfer eithriad o'r gofynion i arddangos platiau trwydded ac yn caniatáu'r Cyngor i wneud penderfyniadau tryloyw ar eithriadau addas.

Cefnogwyd y polisi gan yr aelodau fel ffordd o gynnig cysondeb wrth weithredu gyda cheisiadau am eithriad platiau ac i sicrhau nad oedd oedi diangen yn y broses o ymgeisio. Yn dilyn hyn-

**PENDERFYNWYD** fod-

- (a) *y Polisi Eithrio Platiau Hurio Preifat arfaethedig, fel y nodir yn Atodlen A i'r adroddiad i'w gefnogi a'i gymeradwyo i ymgynghoriad ffurfiol, ac*

- (b) yn dilyn ymgynghoriad swyddogion i adrodd yn ôl am unrhyw wrthwynebiad i'r Pwyllgor Trwyddedu er mwyn ystyried a chymeradwyo'r polisi arfaethedig, neu os na fydd ymatebion wedi eu derbyn, cymeradwyo'r Polisi Eithrio Platiau Hurio Preifat i gael ei fabwysiadu o'r 1 Mehefin 2019.

## **7 POLISI DEFNYDD ARFAETHEDIG CERBYD HACNI**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (wedi ei rannu yn flaenorol) yn cyflwyno Polisi Defnydd Arfaethedig Cerbyd Hacni i adolygiad, fel oedd yn ofynnol bob tair blynedd.

Mabwysiadwyd y polisi gan y Cyngor yn 2015 fel ffordd o reoli defnydd a gorfodaeth trwyddedau cerbydau hacni Sir Ddinbych â ganiatawyd o fewn y sir. Ystyriai'r polisi os mai'r bwriad oedd i'r cerbyd weithredu o fewn y sir neu'n bennaf ar gyfer gwaith hurio preifat y tu allan i'r sir. Ar ôl adolygu'r polisi, ystyriodd y swyddogion ei fod yn dal yn addas i'r dibenion. Nid oedd unrhyw newidiadau wedi eu hargymell, gydag adolygiad arall mewn tair blynedd.

**PENDERFYNWYD** fod cynnwys yr adroddiad i'w nodi a fod y swyddogion i'w hawdurdodi i adolygu'r Polisi Defnydd Arfaethedig Cerbyd Hacni mewn tair blynedd.

## **8 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR WELLA CLUDIANT CYHOEDDUS**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (wedi ei rannu yn barod) yn cyflwyno ymateb ddrafft y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar wella trafndiaeth gyhoeddus

Hysbyswyd yr Aelodau am Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddeddfu ar ddiwygio cynllunio a darparu gwasanaethau bus lleol a thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru. Ystyriai'r adroddiad agwedd y tacsis a hurio'n breifat yn unig a roedd y swyddogion wedi drafftio ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gan Llywodraeth Cymru i'w hystyried gan yr aelodau. Bwriad yr ymateb oedd cyflwyno gwybodaeth i'r Briff Cabinet er mwyn galluogi ymateb benodol ar holl agweddau'r ymgynghoriad cyn cyflwyno'r ymateb swyddogol cyn y dyddiad cau ar 27 Mawrth 2019. Roedd pedwar prif faes trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat wedi eu nodi ar gyfer ystyriaeth. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion i osod safonau cenedlaethol; caniatáu awdurdod trwyddedu i gymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw gerbyd oedd yn weithredol yn ei hardal; creu mecanwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol ar gyfer pwrpasau diogelu, a chynigion i ail-gyfeirio swyddogaethau trwyddedu tacsis a hurio preifat i awdurdod drwyddedu genedlaethol – Awdurdod Drafnidiaeth ar y Cyd (ADC)

Trafodwyd goblygiadau'r cynigion gyda'r swyddogion a chadarnhawyd fod y Panel Trwyddedu Technegol (yn cynrychioli holl awdurdodau lleol Cymru) wedi cytuno gyda ymateb ar y cyd, gyda phob awdurdod lleol yn cael y cyfle i gynnwys sylwadau ychwanegol wedi eu teilwra i'w anghenion lleol fel yn briodol. Adroddodd y swyddogion hefyd ar gwmpas yr ymgynghoriad i roi gwybod i gyfarfod Briffio'r Cabinet. Cadarnhaodd Y Cyngorydd Brian Jones fod Fforwm Ymgynghori Trafnidiaeth Gogledd Cymru wedi ystyried y cynigion hefyd ac y byddant yn cynnig

mewnbwn er mwyn galluogi'r Cyfarfod Briffio i ystyried sefyllfa Sir Ddinbych. Nododd aelodau fod rhai nodweddion positif wedi codi o'r cynigion gan gynnwys safoni polisïau a gweithdrefnau ar draws Cymru er mwyn sicrhau ymdriniaeth gytbwys, mwy o bwerau gorfodi i awdurdodau lleol, rhannu gwybodaeth ar gyfer pwrpas diogelu, a moderneiddio prosesau. Er hyn, nododd aelodau bwysigrwydd rheolaeth leol ynghyd â manteision gwybodaeth ac atebolrwydd leol. Credant yn gryf y dylai awdurdodau lleol barhau i fod yn gyfrifol am drwyddedu tacsis a hurio preifat o fewn eu hardaloedd, gan deimlo eu bod yn y lle gorau i ddelio'n effeithiol â materion lleol a dylanwadu ar ganlyniadau lleol, gan sicrhau rheolaeth well dros dacsis a'r diwydiant hurio preifat yn y sir. Nodwyd y gwaith caled a wnaed gan aelodau a swyddogion wrth godi safonau a gweithredu gwelliannau o fewn y diwydiant hurio preifat a thacsis trwyddedig ynghyd â phwysigrwydd cario ymlaen gyda'r gwaith. Nodwyd pwysigrwydd cadw safonau. O ganlyniad, nid oedd cefnogaeth i'r cynnig i ail-gyfeirio'r swyddogaethau i ffwrdd o'r awdurdodau lleol i awdurdod drwyddedu genedlaethol. Er bod y drafodaeth wedi canolbwyntio'n bennaf ar dacsis a thrwyddedu hurio preifat cafwyd cyfeiriad tuag at bwysigrwydd darparu gwasanaethau bysiau lleol fel rhan o'r broses hon ynghyd â chlodiant yn y cymunedau gwledig; un o flaenoriaethau'r Cyngor.

**PENDEFYNWYD** fod aelodau yn-

- (a) *nodi a chefnogi cynnwys yr adroddiad a'r ymateb a gynigiwyd, ac*
- (b) *yn ddibynnol ar farn yr aelodau, awdurdodi Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i gyflwyno'r drafft orffenedig fel ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus, cyn belled â'i fod yn ymwneud â thrwyddedu hurio preifat a thacsis.*

## **9 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR WAITH YR ADAIN DRWYDDEDU**

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (wedi ei rannu yn flaenorol) yn diweddar'u aelodau ar waith Yr Adain Drwyddedu yn ystod 2018 a oedd yn canolbwyntio ar faterion rheolaethol a gweithredol.

Roedd yr adroddiad yn darparu data ystadegol ar nifer y trwyddedau a gyhoeddwyd, cwynion a'r ceisiadau gwasanaeth a dderbyniwyd yn cwmpasu'r prif swyddogaethau – Alcohol ac Adloniant; Hacni a Thrwyddedu Hurio Preifat; Hapchwarae, Lotriau a Gemau; Masnachu Ar Y Stryd; Casgliadau Elusennol, Metel Sgrap ynghyd â materion ategol eraill gan gynnwys recordio data, perfformiad a chyfathrebu. Roedd materion Rheoli yn cynnwys cyfeiriad at bolisïau, ffioedd, cwynion am y gwasanaeth ynghyd ag ystyriaeth i lwyth gwaith y dyfodol. Ymhelaethodd y Swyddogion ar nifer o agweddau o'r adroddiad gan egluro rhai materion penodol mewn ymateb i gwestiynau aelodau.

Yn ystod y drafodaeth cytunodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd i adolygu'r protocol ar ymgysylltu ag aelodau wardiau lleol lle fo materion wedi eu nodi yn eu hardaloedd penodol er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn berthnasol ac yn briodol i bwrpasau trwyddedu. Mewn ymateb i gwestiwn am sgoriau hylendid bwyd cadarnhaodd swyddogion fod archwiliadau yn cael eu cynnal bob deunaw mis ond pan fo sgôr isel, byddai'r Cyngor yn ail-archwilio ar gais o fewn tri mis am ffi.

Manylwyd ymhellach gan y Swyddogion hefyd ar y cydweithio oedd yn digwydd ar draws yr ardaloedd gwasanaethu yn ystod archwiliadau manau trwyddedig. Talwyd teyrnged gan yr aelodau i'r gwaith caled a wnaed gan y tîm Trwyddedu er mwyn codi safonau a sicrhau arferion da ar draws y nifer o swyddogaethau trwyddedu. Roeddynt yn falch o nodi fod camau wedi eu cymryd i ddogfennu'r gwaith hwn a sicrhau monitro prosesau yn y dyfodol a fyddai'n arwain at well tryloywder Hoffai'r Pwyllgor gyfleu eu diolchiadau i'r Tîm Trwyddedu a gofynnwyd i'r gwerthfawrogiad gael ei gofnodi yn y cofnodion. Diolchodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd i'r aelodau am eu cefnogaeth a chytunodd i gyfleu eu diolchiadau i'r Tîm Trwyddedu. **PENDERFYNWYD** i dderbyn adroddiad blynyddol ar waith yr Adran Drwyddedu.

***PENDERFYNWYD*** i nodi cynnwys yr adroddiad yn ddibynnol ar sylwadau'r aelodau.

## **10 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (wedi ei rannu yn flaenorol) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu am 2019.

Roedd y rhaglen waith yn hyblyg er mwyn gallu ymateb i bwysau neu newidiadau fel yr oeddynt yn codi, ac anogwyd aelodau i gysylltu â swyddogion ynglŷn ag unrhyw faterion yr hoffent gael ei gynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Brian Jones at yr arfer gan rai gweithredwyr o gynnig prisiau gostyngedig a nododd broblemau cysylltiol yn ymwneud â hyn a allai ddwysau yn y dyfodol. Cynghorodd y Swyddogion fod y tariff a osodwyd gan y Cyngor yn cyfeirio at symiau uchafswm a ellir eu codi, a fod rhyddid i weithredwyr godi llai na'r pris tariff a osodwyd. Cadarnhaodd y Swyddogion hefyd nad oeddynt yn ymwybodol o unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'r arfer gan weithredwyr o godi prisiau rhatach nag eraill yn ddiweddar.

***PENDERFYNWYD*** fod y rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y'u manylwyd yn yr atodiad i'r adroddiad yn cael ei chymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 a.m.

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	12 Mehefin 2019
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706433
<b>TESTUN:</b>	Y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â Datganiad Polisi ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ym musnesau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi adroddiad i'r Aelodau o'r gwaith a gyflawnwyd wrth ddrafftio polisi sy'n bodloni'r gofynion yn nogfen ganllawiau'r Sefydliad Trwyddedu.

1.2 Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau o'r Datganiad Polisi drafft ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau ym Musnesau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, i'w weithredu ar 1 Gorffennaf 2019.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Pan gyfarfu'r Pwyllgor Trwyddedu ar 5 Rhagfyr 2018, penderfynodd yr Aelodau fabwysiadu canllawiau'r Sefydliad Trwyddedu a rhoi cyfarwyddyd i'r Swyddogion ddrafftio polisi a oedd yn bodloni'r gofynion yn y ddogfen dan sylw. Hefyd, argymhellodd yr Aelodau bod swyddogion yn meithrin cyswllt â deiliaid trwyddedau.

2.2 Wedi cyflawni'r dasg a nodwyd yn 2.1 uchod, mae'r Swyddogion bellach yn medru cyflwyno drafft terfynol o'r Datganiad Polisi ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau ym Musnesau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat er cymeradwyaeth.

## 3.

### PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

#### **4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Gan gyfeirio at y penderfyniad a nodwyd yn 2.1 uchod, hoffai'r Swyddogion rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r aelodau ynglŷn â'r gwaith a wnaethpwyd ers cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu fis Rhagfyr y llynedd.

4.2 Fis Ionawr eleni anfonwyd newyddlen at bob gyrrwr, Gweithredwr a pherchennog trwyddedig, i'w hysbysu o'r ffaith bod y Pwyllgor Trwyddedu wedi mabwysiadu canllawiau'r Sefydliad Trwyddedu ynglŷn ag addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y diwydiant taccsis. Roedd copi o ganllawiau'r Sefydliad Trwyddedu ynghlwm wrth bob newyddlen.

4.3 Nodwyd manylion yn y newyddlen ynglŷn â nifer o gymorthfeydd Trwyddedu oedd i'w cynnal ledled y Sir ym mis Chwefror a mis Ebrill, gan gynnwys sesiynau yn y bore, yn y prynhawn a gyda'r nos.

4.4 Hysbysebwyd y Cymorthfeydd Trwyddedu hefyd ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Sir Ddinbych a'r Gwasanaeth Trwyddedu, a rhannwyd y manylion drwy amrywiaeth o grwpiau lleol ar gyfryngau cymdeithasol.

4.5 Yn anffodus ni ddaeth ond tri o ddeiliaid trwyddedau i'r holl gymorthfeydd a gynhaliwyd ledled y Sir, ond nid oedd gan yr un ohonynt unrhyw wrthwynebiad i'r Polisi.

4.6 Bwriedir i'r Polisi fod yn berthnasol i bob trwydded newydd a gyflwynir o 1 Gorffennaf 2019 ymlaen. Bydd unrhyw ddeiliaid trwyddedau presennol y barnwyd eu bod yn "addas a phriodol" o dan y Polisi Euogfarnau presennol yn dal i gael eu hystyried felly oni cheir unrhyw euogfarnau pellach yn eu herbyn. Os bydd yno unrhyw euogfarnau pellach, caiff pob mater felly ei gymryd i ystyriaeth pan ddaw'r amser i adnewyddu'r drwydded, neu pan hysbysir y Cyngor o unrhyw drosedd felly.

4.7 Yn Atodiad A mae copi o'r Datganiad Polisi drafft ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau ym Musnesau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Mae'r Swyddogion am dynnu sylw'r Aelodau at y ffaith y gallai'r polisi cenedlaethol hwn fod yn destun newidiadau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor hwn. Pe byddai hynny'n digwydd, gallai'r Aelodau ystyried awdurdodi Swyddogion i fabwysiadu unrhyw newidiadau yn y Datganiad Polisi heb



- 5.0 ddod â'r mater yn ôl gerbron y Pwyllgor. Fodd bynnag, pe byddai newidiadau mawr ar lefel genedlaethol yn cael effaith sylweddol ar y polisi fel y'i mabwysiadwyd, yna byddai'r Swyddogion yn rhannu'r wybodaeth â'r Aelodau yn y cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor wedi hynny.

5.1

## **YMGYNGHORI**

6. Mae'r Cyngor fel arfer yn ymgynghori â'r holl randdeiliaid allweddol pan fwriedir newid unrhyw bolisi, ond yn yr achos hwn mae canllawiau'r Sefydliad Trwyddedu'n ddogfen genedlaethol, a byddai gwro o'r ddogfen honno mewn unrhyw ffordd yn creu anghysonder yn y Sir, ac ni fyddai hynny'n briodol. Felly, aethpwyd ati i gynnal rhaglen o
- 6.1 ddogwyddiadau codi ymwybyddiaeth.

## **ARGYMHELLION**

- 6.2 Bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r Datganiad Polisi drafft ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau ym Musnesau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, sydd ynghlwm yn Atodiad A, i'w weithredu ar 1 Gorffennaf 2019.

Bod yr Aelodau'n awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau fel y nodir yn 4.8 uchod, fel bod y Datganiad Polisi ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau ym Musnesau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn gyson â'r ddogfen ganllawiau genedlaethol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## **STATEMENT OF POLICY REGARDING THE SUITABILITY OF APPLICANTS AND LICENSEES IN THE HACKNEY CARRIAGE AND PRIVATE HIRE TRADES**

### **1.0 Introduction**

- 1.1 The purpose of this policy is to provide guidance on the criteria taken into account by the council when determining whether or not an applicant or an existing licence holder is a fit and proper, or safe and suitable (refer to section 3.13) person to hold a licence.
- 1.1 This document aims to provide guidance to any person with an interest in hackney carriage and private hire licensing. In particular, but not exclusively:
  - Applicants for driver / operator licences
  - Existing licensed drivers / operators whose licences are being reviewed
  - Licensing Officers and Police
  - Members of the Licensing Committee/ Panel (or other relevant decision making body)
  - Magistrates and Crown Court hearing appeals against local authority decisions
- 1.2 This policy is largely based on the 'Guidance on determining the suitability of applicants and licensees in the hackney and private hire trades' produced by the Institute of Licensing (2018). As a result, some sections of this policy will read as a form of 'guidance for all', and the rationale for keeping this information within this policy is simple; the reasoning employed by decision makers should be consistent and transparent. The additional information provided therefore serves to 'set the scene' and better inform all of those involved or interested in this area.
- 1.3 Additionally, this policy is closely aligned to the Institute of Licensing's guidance because this authority recognises that a consistent approach is required across the country to ensure that public safety is at the forefront of decision making.
- 1.4 The only amendments that have been made from the guidance produced by the Institute of Licensing are to reflect specific Denbighshire County Council requirements or to give definitive statements.
- 1.5 This policy will be immediately applied to all new licences. In addition, any existing licensees that have been considered as "fit and proper" under the previous conviction policy, will have "grandfather rights". However, should any existing licensee re-offend (either criminal or motoring), all previous convictions will be taken into account at the time of renewal or when the Council has been notified of such offence.
- 1.6 The Council reserves the right to overturn a decision that has previously been made, or refuse a renewal of a licence, where clear errors are discovered which result in an individual no longer being considered fit and proper.

- 1.7 The overriding aim of any Licensing Authority when carrying out its functions relating to the licensing of Hackney or Private Hire Drivers, Vehicle Proprietors and Operators, must be the protection of the public and others who use (or can be affected by) Hackney Carriage and Private Hire services.
- 1.8 The relevant legislation provides that any person must satisfy the authority that they are a fit and proper person to hold a licence and that is a test to be applied after any applicant has gained any reasonably required qualifications. It is the final part of the process of an application when the decision is made, whether by a committee, sub-committee or an officer under a Scheme of Delegation. It involves a detailed examination of their entire character in order to make a judgment as to their fitness and propriety.
- 1.9 If a licence holder falls short of the fit and proper standard at any time, the licence should be revoked or not renewed on application to do so.
- 1.10 This policy takes a 'bright line approach' and says "never", but it should be noted that it remains a policy, and as such does not amount to any fetter on the discretion of the authority. Each case will always be considered on its merits having regard to the policy, and the licensing authority can depart from the policy where it considers it appropriate to do so. This will normally happen where the licensing authority considers that there are exceptional circumstances which warrant a different decision. This approach was endorsed by the High Court in *R (on the application of Nicholds) v Security Industry Authority* (2007).
- 1.11 Section 2 this policy explores the current thinking behind an individual's tendencies to reoffend. It is clear that this is not an exact science and that there is no meaningful and precise statistical evidence that can assist in the setting of policy. Given the important function of licensing to protect the public, any bar should be set at the highest level which is reasonable, albeit subject to the exercise of discretion as is set out in paragraph 1.10 and elsewhere in this document.
- 1.12 This policy contains no detailed list of offences. All offences are allocated to a general category such as 'dishonesty' or 'drugs'. This prevents it being argued that a specific offence is not covered by the Policy as it 'is not on the list' and also prevents arguments that a firearm is more serious than a knife and should lead to differentiation.

## **2.0 Offenders and Offending – An Overview**

- 2.1 The aim of local authority licensing of the taxi and PHV trades is to protect the public. With this in mind, Public Protection must be at the forefront of the decision maker's mind when determining whether an individual is considered a "fit and proper person" to hold a licence.
- 2.2 This section aims to provide a brief overview of public protection, how to determine risk and factors to be considered when an applicant seeks to demonstrate a change in their offending behaviour.
- 2.3 The licensing process places a duty on the local authority to protect the public. Given the nature of the role, it is paramount that those seeking a living in the trades meet the required standards. As the previous offending behaviour can be considered as a predictor in determining future behaviour as well as culpability, it is essential that the decision maker considers all relevant factors including previous convictions, cautions and complaints and the time elapsed since these were committed.

- 2.4 There has been extensive research into the reasons behind why some individuals commit crimes, why some learn from their mistakes and stop offending whilst others find themselves in a cycle of repeat offending. Several theories have evolved over many years offering insight into the reasons behind offending behaviour. One common theme is that no two crimes are the same and that risk cannot be eliminated, or the future predicted. What can be done is to examine each case on its individual merits, look at the risks involved along with any change in circumstances since any offences were committed to assist in making the decision.
- 2.5 A key factor when considering an application from an individual with any convictions, cautions or complaints recorded is Public Protection. This includes assessing the risk of reoffending and harm. Risk assessment tools are regularly employed by those who are responsible for managing individuals who have committed offences. Local Authorities are not always privy to this information so it is important when they are making decisions around suitability that they have an understanding of offending behaviour and risk of re-offending in generic terms.

### **Risk of re-offending**

- 2.6 The longer the time elapsed since an offence has been committed, the more likely the individual will desist from crime. It is noted that the more a life is lived crime-free, the more one comes to see the benefits of desistance (Maguire et al, 2002). Demonstrating a change in offending behaviour and an ability to make effective choices takes time and comes with some ambiguity for those who have committed offences. A study in 2007 looking into previous convictions and the links to re-offending concluded that “individuals who have offended in the distant past seem less likely to recidivate than individuals who have offended in the recent past” (Kurlychek et al, 2007).
- 2.7 Although it is not possible to determine the future behaviour of an individual, taking steps to reduce risk and protect the public can be achieved by following correct processes and guidance. Having regard to an individual’s previous behaviour and their potential to cause harm as a result of the choices they have made plays a significant part when making a decision as to whether to grant a licence. Being able to evidence change in behaviour will involve consideration of the circumstances at the time of the offence, steps taken to address any issues identified and that person’s ability to sustain such change. This can be a long process that can only be achieved over time.

### **3.0 ‘Taxi’ Licensing Overview**

